# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI
## 23-03-10

**Yn Bresennol:** Mr Michael Parry, (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn) Cadeirydd.

Y Cynghorydd Robert J. Wright, (Cyngor Gwynedd), David Dewsbury a Brian Edmunds, (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli), David Hughes, (Siambr Fasnach Pwllheli), Dr.J..L. Jones Morris, (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams, (Rheolwr Hafan Pwllheli), Huw Davies, (Prif Beiriannydd), Llyr B. Jones, (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:** S. P. Lewis a Duncan Hassall, (Cwmni Mouchel Consulting).

1. **YMDDIHEURIADAU :** Y Cynghorwyr Peter Read a Sion Selwyn Roberts, (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorydd Michael Sol Owen, (Cyngor Tref Pwllheli) a Mr John Morris, (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2009, fel rhai cywir.

4. **ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyda sylw'n cael ei roi i wahanol faterion yn unigol:

***Ffioedd a Thaliadau***

Adroddodd y swyddog fod y ffioedd a thaliadau drafft harbyrau a gwasanaethau cyffredin ar gyfer 2010/11 wedi eu hanfon er cymeradwyaeth at y Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio. Eisoes cadarnhawyd ffioedd yr Hafan a disgwylir cadarnhad o'r ffioedd parthed Harbwr Pwllheli cyn diwedd mis Mawrth.

Nid oedd y swyddog yn rhagweld newid yn y ffioedd a'r taliadau drafft, ac yr oedd yn falch o ddatgan na fydd cynnydd yn wynebu'r rhai sy'n byw yn barhaol yng Ngwynedd. Bydd ffioedd a'r taliadau i'r rhai sy'n byw tu allan i Wynedd yn cynyddu 1%.

Nododd y swyddog y bydd ail-gyflwyno TAW o 17.5% yn golygu cynnydd bach mewn costau i'r holl ddefnyddwyr.

Hyd yma dychwelwyd 95 o ffurflenni cadarnhau angorfeydd ar gyfer yr harbwr allanol yn briodol a nododd y swyddog fod y nifer cymharol isel a gadarnhawyd hyd yma yn siomedig. Ychwanegodd fod 151 o gleientiaid angorfeydd yn yr harbwr allanol yn ystod y flwyddyn ariannol hon gyda 181 o angorfeydd ar gael.

Cyflwynwyd diweddariad ar y sefyllfa yn Hafan Pwllheli a nodwyd fod 410 o gontractau adnewyddu wedi eu cyflwyno. Dychwelodd 365 o gleientiaid eu ffurflenni cadarnhau. Nid oedd 30 o gleientiaid am adnewyddu eu cytundeb angori yn 2010/11. Mae cyfanswm o 44 wedi tynnu'n ôl. Nododd y swyddog fod y nifer ar y rhestr aros wedi gostwng i 202.

Rhagwelir y bydd cynnydd mewn chwyddiant i bob harbwr yng Ngwynedd am 2010/11 yn negyddol ar – 1.05%. Nodwyd bod hyn yn cyfateb i ostyngiad bach o £2,600 yng nghyfanswm targed incwm cyffredinol harbyrau. Nodwyd y bydd cynnydd mewn chwyddiant yn Hafan Pwllheli yn 0.64%, sy'n golygu cynnydd o £9,890 yn y targed incwm am 2010/11.

Cyfeiriwyd at lwyddiant Hafan Pwllheli a'r harbwr allanol yn y gorffennol gyda'r ddau yn cyrraedd, neu hyd yn oed yn rhagori ar eu targed incwm. Fodd bynnag, yn 2009/10 rhagwelir y bydd diffyg bychan yn yr incwm. O ystyried yr amgylchiadau economaidd byd eang, nododd y swyddog y bydd angen i'r Uned Morwrol weithredu er mwyn sicrhau fod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cael eu cyflawni. Er hyn nid oedd am weld safonau'n gostwng.

Ni fydd cynnydd yn y ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol a nododd y swyddog na fu newid yn y ffioedd ers deng mlynedd gan fod ffioedd lansio wedi cyrraedd eu huchafbwynt.

Nodwyd y bydd targed incwm cyffredinol yr Uned Morwrol yn cynyddu i
£2 130,970 ar gyfer 2010/11

***Carthu***

Ar gyfer yr eitem yma, croesawodd y Cadeirydd Mr S. P. Lewis a Mr Duncan Hassall, o Gwmni Mouchel Consulting, sy'n goruchwylio'r contract o garthu basn y marina a sianel ddynesu'r harbwr.

Fel rhan o'r gwaith carthu cychwynnodd y gwaith o wagio'r lagŵn ddistyllu ym mis Rhagfyr 2009. Gwnaed y rhan yma o'r cynllun ar gost o tua £175,000 gyda'r deunydd a symudwyd yn cael ei gludo i Ffridd Rasus ger Harlech.

Bellach mae'r gwaith carthu'n mynd ymlaen yn dda a disgwylir cwblhau'r gwaith cyn diwedd Ebrill, 2010. Bu peth oedi ar gychwyn y gwaith ac oherwydd hyn bu'n amhosib cwblhau'r gwaith cyn y Pasg. O ganlyniad bydd toriad yn y gwaith rhwng 1 Ebrill a 12 Ebrill 2010.

Esboniodd cynrychiolwyr Cwmni Mouchel y dulliau a ddefnyddir i wneud y carthu, a nodwyd fod y cynllun yn cael ei ddarparu trwy flaenoriaethu'r mannau sydd angen eu clirio.

Gofynnodd aelod a fyddai'r gwaith yn cynnwys lledu ceg yr harbwr. Pwysleisiodd yr aelod y byddai hyn yn fanteisiol ac yn osgoi trafferthion o orfod carthu yno'n aml. Esboniwyd na fydd ceg yr harbwr yn cael ei ledu eleni, ond bydd rhaid blaenoriaethu unrhyw waith carthu.

Eglurwyd bod llawer yn dibynnu ar y capasiti sydd ar gael yn y lagŵn ddistyllu er gwaredu deunydd a fydd wedi ei garthu ym masn yr Hafan a'r sianel fordwyo. Eglurwyd y bydd y swyddogion yn monitro ceg yr harbwr yn rheolaidd er ceisio sicrhau fod unrhyw waith carthu yn cael ei raglennu. Atgoffwyd aelodau mai drwy ddefnyddio peiriannau ar y tir y bydd ceg yr harbwr yn cael ei garthu a bod unrhyw ddeunydd a fydd wedi ei garthu yn cael ei storio ar dir cyfagos. Ychwanegwyd fod y capasiti sydd ar gael ar gyfer storio'r deunydd ar y tir wedi lleihau yn ystod y deuddeng mis diwethaf .

Galwodd aelod ar i'r deunydd a fydd wedi ei garthu o geg yr harbwr gael ei ddefnyddio'n lleol.

Nodwyd fod safon y deunydd a symudwyd o'r lagŵn ddistyllu yn llawer gwell na'r disgwyl a gobeithir yn fawr y bydd yr hyn sy'n cael ei garthu ar hyn o bryd o safon uchel. Diolchodd aelod i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am ei gydweithrediad a'r modd y bu'n ymdrin â'r cynllun.

***Cyllidebau***

Cyflwynwyd dadansoddiad ariannol Hafan Pwllheli a'r harbwr allanol ar 31 Rhagfyr 2009. Tynnwyd sylw at y ffaith fod y targed incwm sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli yn £119,760 ar gyfer 2009/10 a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2009 yn £108,062. Mae hyn yn gadael diffyg o £11,698 o'i gymharu â diffyg o £13,737 am yr un cyfnod y llynedd.

Ni ragwelir y gellir creu incwm sylweddol yn ystod mis Mawrth, felly nid yw'n debygol y gellir cyrraedd y targed incwm y flwyddyn ariannol hon.

O safbwynt Hafan Pwllheli, £1,552,740 oedd y targed incwm ar gyfer 2009/10. Hyd ddiwedd Rhagfyr 2009 'roedd cyfanswm yr incwm yn £1,503,451. Golygai hyn ddiffyg o £49,298, ond rhagwelir y gellir cyrraedd y targed incwm angenrheidiol erbyn diwedd mis Mawrth 2010.

O ystyried yr hinsawdd economaidd, pwysleisiodd y swyddog y bydd 2010/11 yn flwyddyn heriol i'r Uned Morwrol ac yn enwedig i harbyrau Gwynedd.

Ychwanegodd y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau arbedion. Fel rhan o'r ymdrechion bydd galw ar i'r staff wynebu trefn hyblyg o weithio, a diolchodd y swyddog iddynt am eu cydweithrediad.

***Mordwyo/Angorfeydd***

Adroddwyd fod yr holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i harbwr Pwllheli wedi aros yn eu lle gydol y gaeaf. Yn ogystal, llwyddodd yr Uned Morwrol i gyflawni tasgau ychwanegol oherwydd y tywydd sefydlog.

Ymhelaethodd y swyddog a chyfeiriodd at yr angen i gwblhau gwaith cynnal a chadw ar y llusernau sefydlog yn fuan. Mynegodd anfodlonrwydd am nad oedd gwaith allweddol i gynnal a chadw rhai cymhorthion mordwyo wedi ei gwblhau. Nodwyd ymhellach ei bod yn ofynnol i holl Fwiau Marcio Parth y Traeth a'r Bwiau Marcio Cyfyngiadau Cyflymder tymhorol yn eu lle yn agos at fynedfa'r, harbwr mewnol cyn 1 Mai 2010.

Cadarnhawyd fod holl angorfeydd yr harbwr wedi eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw, a chyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr i'r aelodau yn nodi'r gwaith a wnaed ar bob angorfa, 'Roedd cyfanswm y gost am wneud y gwaith ym Mhwllheli yn £1,850.

Adroddwyd ymhellach at arolwg sy'n cael ei wneud parthed cyflwr stanciau sy'n dal pontŵn. Cyfeiriodd cynrychiolydd y Bad Achub at y bwi ger ceg yr afon ac awgrymodd y gellid cael stanciau parhaol yno.

***Digwyddiadau***

Bydd gŵyl 'Wakestock' yn dychwelyd i Fasn Gogleddol Harbwr Pwllheli rhwng 1 a 4 Gorffennaf eleni. Fel yn y gorffennol, gofynnodd y trefnwyr am hawl i gynnal yr ŵyl ar y

dydd Gwener, dydd Sadwrn a'r dydd Sul, ac nid oedd yr Uned Morwrol wedi derbyn gwrthwynebiad i hyn.

Cyfeiriodd y swyddog ymhellach at Ŵyl Fwyd Llŷn gaiff ei chynnal ym Mhenrhyn Glandon ar 29 a 30 Mai 2010. Ymysg y digwyddiadau eraill a drefnwyd ar gyfer y misoedd nesaf mae'r 'Honda Rib Youth Challenge gaiff ei chynnal ar 31 Gorffennaf, a'r 'National Powerboat Event'.

Nododd y swyddog fod Hafan Pwllheli wedi ennill y 'Five Anchors Award' a'r Wobr Baner Las' unwaith eto. Ychwanegodd fod Traeth Marian y De wedi ennill Gwobr Baner Las Rhyngwladol yn 2010 gyda Thraeth Glan Don yn ennill Gwobr Arfordir Glas.

Adroddodd cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli fod 22 o ddigwyddiadau i'w cynnal ym Mhwllheli yn ystod 2010 gyda thri o'r rhain yn ddigwyddiadau cenedlaethol..

Ychwanegodd fod digwyddiadau eisoes yn y dyddiadur ar gyfer 2011 a hyd at 2014. Cyfeiriodd at y gwaith sy'n cael ei wneud wrth rannu gwybodaeth trwy Bartneriaeth Pwllheli ac yr oedd yn ymddangos fod y cynllun yma'n gweithio. 'Roedd y cynrychiolydd hefyd yn fodlon iawn hefo'r cydweithrediad sy'n bodoli rhwng y Clwb Hwylio a Chyngor Gwynedd.

Rhoddwyd sylw arbennig i'r ddogfen a gyhoeddwyd ar gyfer hysbysebu Pwllheli a'r ardal. Dosbarthwyd rhai o'r rhain ymysg yr aelodau. Yn ogystal, nodwyd fod cynrychiolaeth o'r Clwb Hwylio wedi mynychu'r Sioe Gychod yn ddiweddar.

***Staff***

Cyfeiriodd y swyddog at benderfyniad yr Harbwr Feistr sydd ar secondiad ym Mhwllheli, Mr Dafydd Phillips, i ymddeol o'r swydd ar 31 Mawrth, 2010. Gweithiodd Mr Phillips ym Mhwllheli a Phorthmadog a phwysleisiodd y swyddog y bydd ei ymddeoliad yn golled i'r Gwasanaeth gan fod ei brofiad a'i wybodaeth helaeth o werth neilltuol.

Cyfeiriodd aelodau at waith arbennig ac agwedd neilltuol Mr Phillips gan danlinellu eu diolch iddo am wasanaeth neilltuol.

Cadarnhawyd fod Mr David O'Neill wedi ei benodi yn olynydd i Mr Phillips fel Harbwr Feistr Porthmadog. Bydd y swyddog sydd wedi derbyn secondiad i swydd Harbwr feistr Pwllheli, sef Mr Trefor Jones, yn cychwyn ei ddyletswyddau ar 1 Ebrill.

***Pecyn Cychod Ymwelwyr***

Disgwylir y bydd yr holl gychod sy'n ymweld â Phwllheli o 1 Ebrill 2010 ymlaen yn derbyn 'Pecyn Croeso'. Nodwyd bod y cynllun i'w gyflwyno ym mhob harbwr gyda'r pecynnau yn cynnwys gwybodaeth am gyfleusterau'r harbwr, mwynderau lleol, llanw, bwytai, gwasanaethau brys ac ati.

Pwysleisiodd y swyddog ei fod yn awyddus i'r cynllun yma ddatblygu a galwodd ar yr aelodau i gysylltu â'r Adran os fydd ganddynt syniadau ynglŷn ag unrhyw beth ellid ei gynnwys yn y pecyn.

Croesawyd y cynllun gan aelodau a thanlinellwyd y pwysigrwydd o hysbysebu a denu mwy i fwynhau cyfleusterau morwrol yr ardal.

***Rhestr Aros Angorfa Pontŵn Hafan***

Nodwyd fod nifer y cleientiaid posib ar restr aros yr Hafan wedi gostwng yn sylweddol yn ystod rhan gyntaf 2010. Ychwanegwyd fod nifer y bobl a gofrestrodd eu diddordeb am angorfa gan y Cyngor wedi disgyn i 202. 'Roedd hyn yn cymharu â 339 a oedd wedi cofrestru am yr un cyfnod yn 2009.

'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Uned Morwrol ystyried cynyddu'r gost o gofrestru ar y rhestr aros o £50 fel y mae ar hyn o bryd, i swm uwch o £100. Adroddodd y swyddog fod barn yr aelodau wedi cael ei ystyriaeth ond nododd y byddai'n rhaid ystyried y mater ymhellach cyn codi'r ffi cofrestru, yn enwedig o gofio'r nifer sylweddol sydd wedi tynnu eu henwau oddi ar y rhestr a hefyd yr hinsawdd economaidd fregus sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gais am fanylion pellach a gyflwynwyd gan aelodau Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli, adroddodd y swyddog fel a ganlyn:

*O'r nifer o bobl ar y rhestr aros yn ystod y deuddeg mis diwethaf, faint ohonynt sydd wedi gwrthod y cynnig am angorfa:-*

- 6m – 1 cais – angorfa heb ei chynnig eto
- 8m – dim ceisiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- 10m – 19 cais 11 wedi derbyn ac 8 wedi gwrthod
- 12m – 3 chais – pob un wedi derbyn
- 13.5m – 2 gais – 1 wedi derbyn 1 wedi gwrthod
- 15m – 3 chais – 2 wedi gwrthod – aros am gadarnhad gan un cleient posib

*O'r nifer o bobl ar y rhestr aros yn ystod y deuddeg mis diwethaf, faint ohonynt sydd heb gael cynnig angorfa barhaol:-*

- Mae pawb ar y rhestr aros wedi cael cynnig angorfa.

*Beth yw'r cyfnod aros a roddir i ymholwyr lleol ac i ymholwyr nad ydynt yn lleol pan fyddant yn holi am angorfa:-*

- Ar gyfer pob ymholiad ar gychwyn 2010, byddai angorfa yn debyg o fod ar gael.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

***Ffioedd Angori***

Gwnaed cais gan Gymdeithas Cychod Hafan Pwllheli i'r Pwyllgor roi ystyriaeth lawn i'r ffioedd angori. Pwysleisiodd eu cynrychiolydd fod angen ystyried amrywiol ddulliau o dalu'r ffioedd fel ei bod yn haws i'r cwsmeriaid wynebu'r costau. Cytunwyd y gellid trafod y mater ymhellach. Cadarnhawyd fod y swyddog yn ymchwilio i'r posibilrwydd o alluogi cleient i dalu drwy ddebyd uniongyrchol ac 'roedd o'r farn efallai y byddai'n bosib cyflwyno'r cynllun yn ystod 2011/12.

***Marchnata***

Yn unol â chais Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli rhoddwyd ystyriaeth i ddulliau o farchnata.

Awgrymwyd y gellid cael un pecyn croeso fyddai'n rhoi sylw i holl harbyrau Gwynedd. Derbyniodd yr aelodau na ellid anwybyddu'r costau, ond pwysleisiwyd y dylid ystyried pethau o'r fath fel buddsoddiad.

Cytunwyd y gellid sefydlu partneriaethau fel y byddai Pwllheli a'r ardal yn cael ei hysbysebu yn mewn modd effeithiol.

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7:40pm

**CADEIRYDD**